

Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

Canolfan Rheoli Traffig De Cymru, Cyffordd 32 yr M4

12:30 – 17:00 Dydd Iau 7 Tachwedd 2019

Yn bresennol:

Yr Arglwydd Burns (Cadeirydd)
Beverly Owen
Lynn Sloman
James Davies
Stephen Gifford
Elaine Seagriff
Peter Jones
Peter McDonald (Ysgrifenyddiaeth)
Matt Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Sam Thomas (Ysgrifenyddiaeth)
Karen Fulford (Ysgrifenyddiaeth)
Mari Williams (Ysgrifenyddiaeth)
Alex Theophilus (Ysgrifenyddiaeth)
Jason Collins (Tîm Technegol)
Gareth Potter (Trafnidiaeth Cymru)

Ymddiheuriadau

Jen Heal

Cyflwyniadau a diweddariad oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth

Gwnaeth y drafodaeth ganolbwyntio ar amseriadau'r cyfarfodydd a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf. Bydd diweddariad ar y mesurau i'w gweithredu'n gyflym yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn, ond ni fydd hynny cyn yr etholiad cyffredinol ar 12 Rhagfyr 2019.

Perfformiad yr M4 ar hyn o bryd

Rhoddwyd taith i bob un a oedd yn bresennol o amgylch Canolfan Rheoli Traffig De Cymru. Gwnaeth y drafodaeth ganolbwyntio ar berfformiad yr M4 ar hyn o bryd o amgylch Casnewydd ac effaith y materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eraill. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y gyfradd ymateb i ddigwyddiadau ar hyn o bryd.

Gwnaeth y Comisiwn hefyd drafod y data traffig manwl ar gyfer llif y traffig tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yn ystod yr oriau brig yn y bore a chyda'r nos, yn enwedig ar gyfer diwrnodau'r wythnos (dydd Llun – dydd Iau). Mae'r llif traffig gyda'r nos tua'r gorllewin gerllaw C25A yn creu problemau penodol.

Mesurau i'w gweithredu'n gyflym

Trafodwyd cyfres o fesurau posibl i'w gweithredu'n gyflym. Cytunwyd dros dro ar restr fer o argymhellion. Adroddir ynghylch y rhain yn ystod y diweddariad ym mis Rhagfyr.

Y ddarpariaeth drafnidiaeth ar hyn o bryd

Gwnaeth y drafodaeth ganolbwyntio ar ddadansoddiad o'r tarddiadau a'r cyrchfannau mwyaf poblogaidd ymhlith defnyddwyr yr M4. Gwnaeth hyn dynnu sylw at sawl patrwm pwysig, yn enwedig ynghylch materion gerllaw gorllewin Casnewydd a Bryste. Mae twf posibl y rhanbarthau hyn yn berthnasol.

Gwnaeth y drafodaeth barhau o amgylch y dewisiadau amgen i deithio ar yr M4 ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar deithio ar y rheilffyrdd, teithio llesol a theithio ar ffyrdd nad ydynt yn draffyrdd.

I gloi, gwnaeth y Comisiwn adolygu'r asesiad archwiliadol cychwynnol o ddarpariaeth seilwaith rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol yn yr ardal ar hyn o bryd. Bydd angen gwneud cryn dipyn o waith pellach.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae llythyrau rhagarweiniol at y grwpiau rhanddeiliaid allweddol wedi cael eu hanfon. Trefnwyd tri gweithdy rhanddeiliaid yng Nghasnewydd, Cas-gwent a Chaerdydd. Mae Ymgynghorwyr Rhanddeiliaid Arbenigol, Cogitamus, wedi cael eu comisiynu i gynorthwyo â'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid a threfnu digwyddiadau a gynlluniwyd. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn comisiynu arolygon cyrchfannau i'w defnyddio mewn lleoliadau megis sefydliadau mawr a gorsafoedd gwasanaethau. Bydd arolwg ar-lein hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn i'r cyhoedd gyfrannu eu profiadau o deithio yn Ne-ddwyrain Cymru.

Y cyfarfod nesaf

Bydd y Comisiwn yn cyfarfod eto ddechrau mis Ionawr